Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

PHILIPPS neu PHILIPS, o Dre-gybi gerllaw Aberteifi a Phorth-Einion, ac yn ddiweddarach o briordy Aberteifi

Dywedir yn fynych (e.e. yn Laws, *Little England*, 355) mai cainc o Philippiaid Pictwn oedd y teulu hwn, ond byddai efallai'n gywirach ei alw'n gainc o deulu Cilsant - cainc a darddodd o Syr Thomas Philipps o Gilsant; gweler yr ysgrif ar Philippiaid Pictwn. Amrywia manylion yr ach fel y ceir hi mewn gwahanol lyfrau, e.e. Dwnn, i, 85; Meyrick, *Cardiganshire* (ail arg.), 172; *W. Wales Hist. Records*, i, 14-5. Trydydd (neu bedwerydd) mab Syr Thomas oedd OWEN PHILIPPS; mab i hwn oedd EINION PHILIPPS, siryf Ceredigion yn 1588; a mab iddo yntau, o'i ail wraig Elizabeth Birt, oedd GEORGE PHILIPPS, siryf yn 1606. Hwn, yn 1616, a gafodd Briordy Aberteifi, a fu o hynny allan yn brif aelwyd y teulu; priodod ag Anne Lewis, a chafodd fab, HECTOR PHILLIPS, siryf yn 1634; priodod ef (yn drydydd ŵr iddi) ag Anne, ferch Syr William Wogan (John Wogan, meddai rhai) o Gas Gwis ('Wiston'), a'u mab hynaf oedd

JAMES PHILIPPS (1594 - 1675),

a ymaelododd yn Rhydychen (o Goleg Iesu) yn 1610, ac a fu'n siryf yn 1649. Yr oedd ef a'i frawd Hector (isod) yn bleidwyr selog i'r Senedd yn y Rhyfel Cartrefol; buont ill dau'n ' Commissioners of Sequestration ' yn ne-orllewin Cymru; a bu James yn aelod o bwyllgor y fyddin (yr oedd yn gyrnol), ac (yn 1651) yn aelod o'r ' High Court of Justice '; bu hefyd yn aelod seneddol dros Geredigion yn Seneddau 1653, 1654, 1656 (rhoes ei sedd i fyny yn y flwyddyn honno i fod yn aelod seneddol dros sir Benfro) a 1659, a thros fwrdeisdrefi Ceredigion yn 1660 a 1661, ond collodd y sedd honno ar betisiwn (Meyrick, op. cit., 340-1). Cyhuddid y ddau frawd o fod yn hynod reibus; ond teg yw dweud hefyd bod geirda i James (yn 1661 - *Cambrian Register*, i, 167) fel dyn parod ei gymwynas. Bu farw yn 1675. Bu'n briod deirgwaith. Y wraig gyntaf oedd Frances, ferch ei gâr Syr Richard Philipps o Bictwn. Yr ail (1647) oedd KATHERINE (1631 - 1664), ferch John Fowler, masnachwr o Lundain - yr oedd ei mam hi, Katherine (Oxenbridge), wedi dyfod yn ail wraig i'w dad ef yr Hector Philipps uchod, ac y mae'r priodasau hyn yn adlewyrchiad diddorol o'r cyswllt agos, mewn economeg a gwleidyddiaeth a chrefydd, rhwng de-orllewin Cymru a dinas Llundain. Dan ei ffugenw ' Orinda ' y mae Katherine Philipps (a aned ar galan Ionawr 1631) yn hysbys iawn (gweler yr ysgrif arni yn *D.N.B.*, neu draethawd Edmund Gosse yn *Seventeenth Century Studies*, serch bod rhai o'r manion yn hwnnw'n anghywir), ac y mae ei phrydyddiaeth a'i llythyrau'n sôn llawer am Aberteifi a'r cylch; bu farw yn Lundain, 18 Ionawr 1664. Ganed dau blentyn o'r briodas hon: Hector (a fu farw'n blentyn), a KATHERINE PHILIPPS (ganwyd 1656; yr oedd yn fyw yn 1699), a briododd a Lewis Wogan o Boulston (gweler ysgrif Francis Green ar y teulu, *Cymm.*, xv, yn bennaf 135-8); cawsant 15 o blant, ond un yn unig (merch) a'u goroesodd. Trydedd wraig James Philipps oedd Jane Rudd o Aberglasneu (Caerfyrddin) - gelwir hi'n ' Anne ' yn y llyfrau, ond prawf ei hewyllys (1674) mai Jane oedd ei henw.

Brawd iau James Philipps oedd HECTOR PHILIPPS (bu farw 1693), a dderbyniwyd i'r Middle Temple yn 1654. Cyffyrddwyd uchod â'i ddaliadau politicaidd; bu'n siryf yn 1688, ac yn aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Ceredigion yn 1679 (ddwywaith), 1681, 1685, 1689, a 1690 (Meyrick, op. cit., 348); bu farw fis Mawrth 1693. Bu'n briod ddwywaith; merch i'r cadfridog seneddol enwog Philip Skippon (gweler *D.N.B.*) oedd ei wraig gyntaf. Etifeddodd diroedd ei frawd James, ond ni adawodd ond merch ar ei ôl. Aeth y tiroedd (cyn 1744 fan ddiweddaraf) i Brysiaid Gogerddan. Bu'r Priordy ym meddiant (1774) tad Thomas Johnes o'r Hafod; wedyn un o'r Boweniaid o Dredroer ('Troed-yr-aur') a'i pioedd, a chyflogodd ef y pensaer John Nash o Aberteifi i'w ailadeiladu. Yn 1897 daeth i feddiant teulu o'r enw Pritchard, ac Emily Pritchard, un ohonynt hwy, a sgrifennodd ei hanes - *Cardigan Priory*, 1904. Llwyr weddnewidiwyd ef ar ôl hynny - heddiw, ysbyty ydyw.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

gweler nodyn E. G. B. Phillimore am yr enw yn George Owen, *The Description of Penbrokshire*, iv, 475

Enwyd y ffynonellau yng nghorff yr ysgrif

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734164

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1953). PHILIPPS neu PHILIPS, o Dre-gybi gerllaw Aberteifi a Phorth-Einion, ac yn ddiweddarach o briordy Aberteifi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PHIL-TRE-1588

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government